



Ein cyf/Our ref

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

06 Rhagfyr 2018

Annwyl John,

Diolch am eich adroddiad craffu ar y gyllideb, y byddaf yn ymateb iddo yn y man. Codwyd nifer o gwestiynau pan oeddwn yn bresennol yn sesiwn y pwyllgor, ac fe gytunais i ysgrifennu atoch i roi rhywfaint o wybodaeth eglurhaol.

Yn gyntaf, gofynnwyd sut mae'r Llywodraeth yn gwthio'r agenda i wneud yn siŵr bod awdurdodau lleol yn sicrhau gwell gwerth am arian yng nghyd-destun y gyllideb priffyrdd.

Mae'r grantiau penodol rydym nawr yn eu dyrannu i awdurdodau priffyrdd lleol yn cynnwys amod i gynhyrchu crynodeb flynyddol o'u cynllun rheoli asedau. Bydd hyn yn rhoi darlun cyffredinol o gyflwr y rhwydwaith ffyrdd ar draws Cymru, ac yn ddefnyddiol i sicrhau cysondeb yn y ffordd y mae'r priffyrdd yn cael eu cynnal. Mae cyllid grant sy'n cael ei ddyrannu i awdurdodau priffyrdd lleol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddilyn Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (2017) wrth ystyried eu penderfyniadau buddsoddi. Mae'r canllawiau hyn yn dilyn model pum achos y Trysorlys er mwyn i awdurdodau werthuso achosion economaidd, trafndiaeth, cyllidol, masnachol a rheoli cyn cyflawni eu gwaith. Mae'r pecyn cymorth yn gofyn i awdurdodau fonitro'r buddion disgwylidig o'u buddsoddiadau. Drwy werthuso'r buddion a gynlluniwyd yn erbyn y rhai a gyflawnwyd ar ôl y gwaith, bydd yn bosib asesu a sicrhawyd gwerth am arian ar y buddsoddiad. Yn fwy cyffredinol, wrth gwrs, cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw sicrhau gwerth am arian o ran eu gwariant ar draws eu cyfrifoldebau amrywiol. Mae gwaith craffu aelodau etholedig a gwaith Swyddfa Archwilio Cymru yn rhan o'r system atebolrwydd sy'n cefnogi hyn.

Yn ail, gofynnwyd am eglurder ynghylch yr £20 miliwn ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol a ddarparwyd ar ei gyfer yn y Grant Cynnal Refeniw. Mae'r £20 miliwn o gyllid a nodwyd yn y setliad llywodraeth leol dros dro ar gyfer 2019-20 yn cydnabod rôl bwysig

awdurdodau lleol wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol craidd a phwysigrwydd dulliau ataliol. Mae'r cyllid hwn yn ychwanegol at yr ymrwymiad a wnaed yng nghyllideb 2018-19 i roi blaenoriaeth i gyllid ar gyfer gofal cymdeithasol drwy setliadau 2018-19 a 2019-20.

Yn olaf, gofynnwyd am y gyfran o'r gyllideb a ddefnyddiwyd ar gyfer gwariant ataliol. Fel y trafodwyd yn y pwyllgor, mae'r diffiniad o atal a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn y gyllideb ddrafft fanwl yn un aml-haenog, ac yn cydnabod yr amrywiaeth eang o gyllid a gwasanaethau a ddarperir gennym yn cwmpasu'n holl wariant. Y bwriad yw helpu gyda phenderfyniadau polisi gan gydnabod nad oes modd i bopeth rydym yn ei wneud gael ei anelu at ataliaeth sylfaenol, ond dros amser gallwn symud i ganolbwyntio ar atal anawsterau cyn iddynt godi.

Rydym yn cydnabod bod y pwysau ar adnoddau ac anghenion gwirioneddol gwasanaethau cyhoeddus i ddarparu ymyriadau adferol yn golygu nad oes modd cyfeirio'r holl gyllid tuag at atal. Fodd bynnag, lle bo arian ychwanegol ar gael, rydym yn ceisio'i gyfeirio at gamau atal sylfaenol ac eilaidd lle bynnag y bo'n bosibl. Yn sesiwn y pwyllgor trafodwyd y pecyn integredig o £130 miliwn o gyllid refeniw sydd ar gael drwy bartneriaethau rhanbarthol iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru. Mae hyn wedi'i ddyrannu ar draws tri phrif faes, £50 miliwn i'r Gronfa Gofal Integredig, sy'n ceisio lleihau'r pwysau ar ysbytai a'r system gofal cymdeithasol drwy helpu i atal derbyniadau diangen i'r ysbyty, derbyniadau amhriodol i ofal preswyl ac oedi wrth ryddhau o'r ysbyty; £30 miliwn i'w ddyrannu drwy'r byrddau partneriaeth rhanbarthol i helpu i gyflawni *Cymru Iachach*; a £50 miliwn i'r Gronfa Trawsnewid, a fydd yn cael ei ddyrannu i raglenni sydd wedi'u cymeradwyo gan fyrddau partneriaeth rhanbarthol, er mwyn symud ymlaen i ddatblygu modelau gofal newydd a'u rhoi ar waith.

Ar 13 Tachwedd, cyhoeddodd y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol y byddai £15 miliwn o'r £30 miliwn a ddyrannwyd i'r byrddau partneriaeth rhanbarthol yn cael ei ddefnyddio i symud ymlaen â'n huchelgais o leihau'r angen i blant fod mewn gofal. Dylai awdurdodau lleol, sefydliadau trydydd sector a byrddau iechyd gydweithio i ddefnyddio'r gronfa hon yn hyblyg ac yn greadigol ar draws eu rhanbarthau. Cyhoeddwyd yr wythnos hon y byddai'r £15 miliwn sy'n weddill yn helpu i gynyddu cydweithio rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd i gynorthwyo oedolion ag anghenion gofal yn eu cartrefi, gan osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty, neu sicrhau bod modd iddynt ddychwelyd adref cyn gynted â phosib ar ôl eu derbyn i'r ysbyty.

Yn gyffredinol, mae'r cyllid sy'n cael ei ddarparu i lywodraeth leol naill ai heb ei neilltuo neu ag amodau grant eang sy'n golygu nad ydym yn cadw gwybodaeth yn ganolog i ddsbarthu gwariant yn llawn yn erbyn pob un o'r pedwar categori yn y diffiniad a gyhoeddwyd. Fodd bynnag, rwy'n edrych ymlaen at gael gweithio gyda'r sector, wrth ochr y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn edrych ar wariant ataliol yng nghyd-destun llywodraeth leol.

Cofion,



Alun Davies AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Cabinet Secretary for Local Government and Public Services